

Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel
Dda:

Ward Enlli (Cyfarwyddiaeth Iechyd
Meddwl ac Anabledd Dysgu),
Ward Ceredig (Cyfarwyddiaeth
Lawfeddygol), Ward Ystwyth
(Cyfarwyddiaeth Feddygol).

Dyddiad arolygu: 7 ac 8 Medi 2016

Dyddiad cyhoeddi: 9 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	6
4.	Crynodeb	8
	Canfyddiadau	10
	Ansawdd Profiad y Claf	10
	Ward Ceredig	11
	Ward Ystwyth	13
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	14
5.	Y Camau Nesaf.....	39
	Atodiad A.....	40

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o dair ardal yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl, y Gyfarwyddiaeth Lawfeddygol a'r Gyfarwyddiaeth Feddygol (un ym mhob un) o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 7 a 8 Medi 2016. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

Ysbyty Cyffredinol Bronglais:

- Ward Enlli (Iechyd meddwl i Bobl Hŷn)
- Ward Ceredig (Llawfeddygaeth Gyffredinol/Trawma ac Orthopedeg)
- Ward Ystwyth (Strôc)

Noder am weddill yr adroddiad arolygu hwn y byddwn yn cyfeirio at ward Enlli, ward Ceredig a ward Ystwyth wrth drafod canfyddiadau unigol, er mwyn ei wneud yn hawdd ei ddarllen.

2. Methodoleg

Mae amrywiaeth o ddulliau a methodoleg ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, ac rydym yn dewis y rhai mwyaf priodol yn ôl amrywiaeth ac ystod y gwasanaethau yr ydym yn bwriadu eu harolygu. Mae arolygiadau trylwyr o un ward yn caniatáu inni gymryd golwg hynod fanwl ar agwedd fach ar ddarpariaeth o ofal iechyd, tra bo'r sylw cynyddol a gynigir trwy ymweld â nifer fwy o wardiau ac adrannau'n ein galluogi i gynnal asesiad mwy cadarn o

themâu a phroblemau o ran y bwrdd iechyd dan sylw. Yn y ddau achos, caiff adborth ei wneud ar gael i wasanaethau iechyd mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) yn ganolog i ddull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1

Ffigur 1



Mae arolygiadau o ysbytai'r GIG yn ddirybudd, ac rydym yn arolygu ac yn adrodd mewn perthynas â thair thema:

- **Ansawdd Profiad y Claf:**
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol:**
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth:**
Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad o'r tair ward o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynnwys dau reolwr arolygu AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol, ac un adolygydd lleyg. Roedd hefyd un adolygydd AGIC yn arsylwi ar y broses.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau a chyfweliadau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd
- Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
- Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn darparu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer cyfanswm o tua 384,000 o bobl ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n darparu gwasanaethau Aciwt, Sylfaenol, Cymunedol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu trwy Ysbytai Cyffredinol a Chymunedol, Canolfannau Iechyd, Meddygon Teulu, Deintyddion, Fferyllwyr, Optometryddion a safleoedd eraill.

Mae Ysbyty Bronglais wedi'i leoli yn Aberystwyth, gorllewin canolbarth Cymru, ac mae'n gwasanaethu ardal helaeth o'i gwmpas. Mae'n gymharol fach ac mae hyn yn arwain yn aml at rai cleifion yn cael eu hatgyfeirio i ysbytai yng Nghaerfyrddin, Abertawe ac yn bellach i ffwrdd. Mae gan yr ysbyty tua 138 gwely, ac mae'n darparu amrediad cynhwysfawr o wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol a chleifion allanol, ynghyd ag adran damweiniau ac achosion brys 24 awr.

Ward Enlli

Mae ward Enlli yn ward asesu aciwt i oedolion, ar gyfer cleifion a nodwyd bod ganddynt anghenion iechyd meddwl. Mae'n ward rhyw cymysg ac iddi saith ystafell wely nad oes ganddynt gyfleusterau en-suite ar hyn o bryd. Arweinir y ward gan ymgynghorwyr.

Ward Ceredig

Mae ward Ceredig yn ward orthopedig/trawma ac iddi 28 gwely. Mae un gwely wedi cael ei symud o'r gilfan bellaf ar sail y diffyg preifatrwydd ac urddas a fu oherwydd ei safle yn y gilfan. Mae'n ward rhyw cymysg ac iddi ystafell} wely sengl a chilfannau aml-wely un rhyw. Mae gan y ward hon nifer o ymgynghorwyr.

Ward Ystwyth

Mae gan ward Ystwyth 18 gwely – pedwar gwely aciwt, pedwar gwely adsefydlu ar ôl strôc a phedwar gwely meddygol cyffredinol. Mae'n ward rhyw cymysg ac iddi ystafelloedd gwely sengl a chilfannau aml-wely un rhyw. Mae gan y ward hon nifer o ymgynghorwyr.

4. Crynodeb

Ar y cyfan rhoddwyd sicrwydd inni fod Enlli ac Ystwyth yn darparu gofal urddasol, amserol ac effeithiol cyson a oedd yn cyd-fynd â'r Safonau Iechyd a Gofal. Fodd bynnag, canfuom nad oedd ward Ceredig bob amser yn gallu dangos ei bod yn darparu gofal i'r un safonau.

Roedd meysydd cyffredinol i'w gwella fel a ganlyn;

- Gwnaethom nodi'r angen i wella lefelau staffio
- Elfennau o atal a rheoli heintiau
- Yr angen i drefnu a storio cyfarpar
- Yr angen i annog arloesedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth well ar lefel ward

Roedd yr holl wardiau i'w gweld yn lân Nid oedd derbynnydd ar ward Enlli; fodd bynnag, gwelsom fod gan ward Ceredig a ward Ystwyth staff derbynfa cyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt. Roedd cleifion yn gallu trafod eu gofal â staff trwy gyfrwng y Gymraeg (pe baent am wneud hynny). Roedd y bwyd yn faethlon ac o safon dda, gyda maint dognau, dewis ac amrywiaeth dderbyniol. Prin oedd y gweithgareddau a oedd ar gael ar gyfer cleifion ar yr un o'r wardiau. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar ward Enlli, lle roedd mynediad at fan awyr agored ond nid oedd yn addas i'r diben.

Dywedodd ymgynghorwyr, staff meddygol uwch, staff nyrsio a rheolwyr ward wrthym sut roeddent yn ymdrechu i sicrhau safon uchel o ofal ar gyfer eu cleifion. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod diffyg cyfathrebu rhwng staff a chleifion ar ward Ceredig. Ym mhob maes roedd staff yn glir ac yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol, gyda staff yn dweud; eu bod yn mwynhau'r gwaith ond yn teimlo o dan bwysau i fodloni a chynnal safonau gofal oherwydd y niferoedd isel o staff.

Canfuom fod problemau staffio parhaus, gyda staff yn awgrymu bod diffyg cyfathrebu â'r system cronfa staff fewnol, a hefyd pryderon ynglŷn ag un o'r asiantaethau nyrsio a oedd wedi'i chontractio i'r ysbyty ar y pryd. Roedd hefyd problem ynglŷn â diffyg arweinyddiaeth a rheolaeth gymhellol yn nwy o'r wardiau. Fodd bynnag, roedd uwch-reolwyr eisoes yn ymwybodol o'r mater hwn ac yn ymdrin â'r sefyllfa.

Dangosodd trafodaethau ag amrywiaeth eang o staff ar draws y tair ward, a chynnwys holiaduron staff AGIC a gwblhawyd, fod y bwrdd iechyd yn meithrin diwylliant o ddysgu ac yn annog unpwygwydd personol a phroffesiynol.

Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Ar y cyfan rhoddwyd sicrwydd inni fod ward Enlli a ward Ystwyth yn darparu gofal urddasol, amserol ac effeithiol cyson a oedd yn cyd-fynd â'r Safonau Iechyd a Gofal. Fodd bynnag, canfuom nad oedd ward Ceredig yn gallu dangos ei bod yn darparu'r un safonau.

Roedd yr holl fannau o dan do i'w gweld yn lân, ond dim ond ward Ceredig a ward Ystwyth a oedd â staff derbynfa. Roedd cleifion yn gallu trafod eu gofal â staff trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd y bwyd yn faethlon ac o safon dda, gyda maint dognau, dewis ac amrywiaeth dderbyniol.

Prin oedd y gweithgareddau a oedd ar gael ar gyfer cleifion ar yr un o'r wardiau. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar ward Enlli, lle roedd mynediad at fan awyr agored ond nid oedd yn addas i'r diben.

Rhaid i bobl sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau i'r rhai a ddarparodd eu gofal, fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3)

Yn ystod ein harolygiad gwnaethom wahodd cleifion a/neu eu perthnasau i gwblhau holiadur AGIC, er mwyn casglu eu barn am eu profiadau pan oeddent ar wardiau Ysbyty Bronglais o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae holiaduron AGIC yn gofyn yn benodol am farn cleifion ynghylch yr amgylchedd clinigol, agweddau staff yr ysbyty, a'r gofal a dderbyniwyd. Cwblhawyd 16 o holiaduron gan/ar ran cleifion.

Roedd cleifion ar y tair ward yn dweud yn gyson bod y bwyd yn gynnes, yn ddigonol a bod digon o ddewis. Ar ddiwrnodau'r arolygiad gwelsom fod y cleifion i'w gweld yn hapus gyda'r prydau bwyd a ddarperid.

Ward Enlli

Roedd pum holiadur a gwblhawyd yn dangos bod yr holl gleifion a oedd ar y ward ar ddiwrnodau'r arolygiad wedi bod yno am dros bythefnos. Yn ddieithriad

gwnaethant ddweud iddynt gael y cyfle i siarad â staff yn yr iaith o'u dewis pan gawsant eu derbyn ar y ward.

Pan wnaethom ofyn am lendid yr uned gwnaethant i gyd gytuno bod y ward yn lân ac yn daclus. Gwnaethom hefyd edrych ar yr amserlenni glanhau a gweld bod glendid yr holl fannau'n dderbyniol.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gadarnhaol ynghylch y gofal a'r driniaeth roeddent wedi eu derbyn gan staff. Fodd bynnag, dywedodd dau ohonynt y gallai staff fod wedi siarad gyda hwy fwy er mwyn eu helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol.

Roedd y rhan fwyaf o gleifion yn cytuno'n neu'n cytuno'n gryf bod staff yn garedig, yn cynnig cymorth pan oedd angen ac yn sicrhau eu bod yn cael digon o fwyd a dŵr. Fodd bynnag, dywedodd un nad oedd dŵr yfed ar gael ar bob adeg, a dywedodd dau nad oeddent yn gallu cyrraedd seiniwr bob amser, ond pan oeddent yn gallu, nid oedd staff yn ymateb mewn modd amserol yn gyson.

Pan ofynnwyd i gleifion roi sgôr allan o ddeg am y gofal a'r driniaeth gyffredinol a oedd yn cael eu darparu ar ward Enlli, rhoddwyd sgôr rhwng saith a deg. Mae hyn yn dangos bod cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi ei dderbyn ar y cyfan.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i staff sicrhau bod dŵr yfed ar gael i gleifion 24 awr y dydd.

Rhaid i staff sicrhau bod gan gleifion seiniwr a'u bod yn ymateb i larymau galw am gymorth mewn modd amserol.

Cafodd Technegydd Therapi Galwedigaethol ei benodi ym mis Mehefin 2016, gyda'r nod o wella'r gweithgareddau ar y ward. Roedd yr aelod o staff yn llawn cymhelliant a chanddo rai syniadau arloesol; fodd bynnag, bydd angen i'r bwrdd iechyd ddarparu adnoddau/offer priodol er mwyn datblygu'r rôl i symud pethau yn eu blaen.

At ei gilydd roedd yr amgylchedd i'w weld yn wag, yn glinigol ac yn anysgogol. Gellid ystyried gwella'r mannau ymwelwyr, y ffordd mae pobl yn cael eu croesawu i'r ward ac arwyddion ar gyfer y cleifion sydd â nam gwybyddol/dementia.

Ward Ceredig

Roedd wyth holiadur a gwblhawyd yn dangos bod y cleifion a oedd wedi ymateb a oedd ar y ward ar ddiwrnodau'r arolygiad wedi bod yno rhwng tridiau

a thros bythefnos. Roedd hyn yn golygu bod cleifion wedi bod ar y ward yn ddigon hir i ffurfio barn ynghylch y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu. Dywedodd chwech iddynt gael y cyfle i siarad â staff mewn iaith o'u dewis pan gawsant eu derbyn ar y ward, dywedodd un nad oedd wedi cael y cyfle ac ni wnaeth un ymateb.

Pan wnaethom ofyn am lendid yr uned gwnaethant i gyd gytuno bod y ward yn lân ac yn daclus. Gwnaethom hefyd edrych ar yr amserlenni glanhau a gweld bod glendid yr holl fannau'n dderbyniol. Fodd bynnag, roedd angen symud offer a oedd wedi cael eu storio yn y coridorau; roedd yr eitemau hyn yn gwneud y llwybr yn gul ac yn anodd ei ddefnyddio ar gyfer cleifion sy'n defnyddio cymhorthion cerdded.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gadarnhaol ynghylch y gofal a'r driniaeth roeddent wedi eu derbyn gan staff. Fodd bynnag, dywedodd dau ohonynt y gallai staff fod wedi siarad â nhw'n fwy er mwyn eu helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol. Gwelwyd bod larymau galw am nyrs yn hawdd eu cyrraedd, a gwelsom fod urddas cleifion yn cael ei gynnal ar bob adeg, h.y. llenni'n cael eu tynnu o gwmpas y gwely pan oedd gofal neu drafodaethau'n cael eu cynnal.

Gwelsom hefyd nad oedd teledu yn y gilfan fawr, a bod diffyg lluniau neu bethau ysgogol – o ystyried bod gan nifer o'r cleifion anghenion dementia.

Dim ond tri chlaf a oedd yn hollol fodlon ar agweddau staff yn ystod eu hamser ar y ward, gan wneud sylwadau megis: gwych a "Diolch yn fawr. Gwasanaeth da iawn". Roedd sylwadau eraill a gafwyd fel a ganlyn:

- "Amgylchedd anhapus"
- "Nid yw staff yn defnyddio'r enw o'm dewis i"
- "Cynllunio gwael ar gyfer rhyddhau"
- "Cyfathrebu gwael gan staff"
- "Mae'n anodd dod o hyd i'r meddyg cywir i siarad ag ef"
- "Mae rhai staff yn fwy parod eu cymwynas na'r lleill"

Roedd un sylw yn lleisio pryderon ynglŷn ag aelod unigol o staff, ac mae AGIC wedi siarad â Chyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Iechyd ynghylch y mater. **Mae'r mater hwn wedi derbyn sylw ar wahân i'r adroddiad hwn.**

Pan ofynnwyd am safonau gofal roedd y rhan fwyaf yn cytuno nad oedd unrhyw bryderon; fodd bynnag, dywedodd y rhai yr oedd angen cymorth arnynt i fwyta, yfed neu i fynd i'r tŷ bach y gellid gwella'r maes hwn.

Pan ofynnwyd i gleifion roi sgôr allan o ddeg am y gofal a'r driniaeth gyffredinol a oedd yn cael eu darparu ar ward Ceredig, rhoddwyd sgôr o rhwng saith a deg. Mae hyn yn dangos bod cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi ei dderbyn ar y cyfan.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod y coridorau'n cael eu cadw'n rhydd rhag offer i ganiatáu mynediad hawdd mewn argyfwng, neu ar gyfer pobl sydd ag anawsterau symudedd.

Mae angen i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r problemau ynglŷn ag agweddau staff fel mater o frys.

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod cleifion y mae angen cymorth arnynt gyda gweithgareddau bywyd pob dydd yn derbyn cymorth mewn modd amserol.

Ward Ystwyth

Roedd tri holiadur a gwblhawyd yn dangos bod yr holl gleifion a oedd ar y ward ar ddiwrnodau'r arolygiad wedi bod yno am dros dridiau. Yn ddieithriad gwnaethant ddweud iddynt gael y cyfle i siarad â staff yn yr iaith o'u dewis pan gawsant eu derbyn ar y ward.

Pan wnaethom ofyn am lendid yr uned gwnaethant i gyd gytuno bod y ward yn lân ac yn daclus. Gwnaethom hefyd edrych ar yr amserlenni glanhau a gweld bod glendid yr holl fannau'n dderbyniol.

Roedd pob un ohonynt yn gadarnhaol ynghylch y gofal a'r driniaeth roeddent wedi eu derbyn gan staff, gan wneud sylwadau fel a ganlyn: "Mae'r gofal yn eithriadol o dda" ac "mae'r holl ofal wedi bod o'r radd flaenaf". Roeddent hefyd yn cytuno'n gryf bod staff yn gwrtais, yn garedig, yn gwrando ar gleifion, yn cynnig cymorth pan oedd angen ac yn sicrhau eu bod yn cael digon o fwyd a dŵr.

Pan ofynnwyd i gleifion roi sgôr allan o ddeg am y gofal a'r driniaeth gyffredinol a oedd yn cael eu darparu ar ward Ystwyth rhoddwyd sgôr o ddeg. Mae hyn yn dangos bod cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Canfuom fod y cofnodion a gwblhawyd o ran gofal a thriniaeth cleifion yn dda ar y cyfan, er bod anghysondebau mewn rhai meysydd.

Nodwyd gwelliant i'r amgylchedd a oedd ei angen, yn benodol o ran lliwiau sy'n addas ar gyfer pobl â dementia.

Cadw'n iach

Mae pobl yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac mae gofawyr unigolion na allant ofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl ac i leihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)

Ward Enlli

Gwelsom systemau ar waith i adnabod cleifion a oedd angen cymorth ychwanegol, er enghraifft cleifion â phroblemau cofio neu gleifion a oedd wedi cael diagnosis o ddementia. Roedd system nyrs a enwir/nyrs gysylltiol ar waith, a oedd yn golygu bod pobl yn adnabod y bobl a oedd yn gyfrifol am eu gofal.

Ni welsom unrhyw daflenni na gwybodaeth ar y ward ynglŷn â chymorth a chefnogaeth i gleifion a'u gofawyr megis: manylion cyswllt y gwasanaeth eiriolaeth, manylion y Cyngor Iechyd Cymuned neu wybodaeth am grwpiau hunangymorth.

Roedd hefyd diffyg cyfleoedd amlwg i gleifion wneud ymarfer corff neu gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau ysgogol e.e. celf a chrefft.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod taflenni gwybodaeth ar gyfer cleifion a'u gofawyr ar gael ar y ward.

Ward Ceredig

Gwelsom systemau ar waith i adnabod cleifion a oedd angen cymorth ychwanegol, er enghraifft cleifion â phroblemau gyda'u cof neu gleifion a oedd wedi cael diagnosis o ddementia neu gleifion â phroblemau symudedd.

Ni welsom unrhyw daflenni na gwybodaeth ar y ward ynglŷn â chymorth a chefnogaeth i gleifion a'u gofawyr megis: manylion cyswllt y gwasanaeth

eiriolaeth, manylion y Cyngor Iechyd Cymuned neu wybodaeth am grwpiau hunangymorth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod taflenni gwybodaeth ar gyfer cleifion a'u gofalwyr ar gael ar y ward.

Ward Ystwyth

Gwelsom systemau ar waith i adnabod cleifion a oedd angen cymorth ychwanegol, er enghraifft cleifion â phroblemau gyda'u cof neu gleifion a oedd wedi cael diagnosis o ddementia neu gleifion â phroblemau symudedd.

Gwelsom amrywiaeth o daflenni a gwybodaeth am gymorth a chefnogaeth ar gyfer cleifion a'u gofalwyr megis: manylion cyswllt y gwasanaeth eiriolaeth, manylion y Cyngor Iechyd Cymuned a gwybodaeth am grwpiau hunangymorth.

Gofal diogel

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro, ac os oes modd, eu lleihau a'u hatal. (Safon 2.1)

Ward Enlli

Gwelsom fod asesiadau risg o bwyntiau clymu wedi cael eu cynnal (er mwyn diogelwch cleifion a allai feddwl am hunanladdiad). Roedd yr asesiadau hyn wedi nodi nifer o fannau, yn benodol yn ystafelloedd gwely 1-7 a'r tai bach, a oedd angen sylw er mwyn darparu amgylchedd mwy diogel. Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi cael eu hunioni i gael gwared ar y risg. Er mwyn amddiffyn y cleifion a oedd yn agored i niwed yn yr ystafelloedd gwely hyn, roedd staff wedi bod yn defnyddio arsylwadau dwysach pan oedd y risg o hunan-niweidio'n cael ei nodi. Trafodwyd y mater hwn â rheolwr y ward ar y dydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r pwyntiau clymu a nodwyd i waredu ar y risg o gleifion yn hunan-niweidio.

Gwnaethom hefyd nodi gwelliannau i'r amgylchedd a oedd angen sylw megis:

- Ail-leoli'r ystafell gwastraff clinigol/lifddor i atal yr arfer o gario gwastraff trwy'r ward i ran arall o'r ysbyty

- Ailddurno sy'n ystyried arferion gorau'r egwyddorion dylunio ar gyfer cefnogi pobl â dementia
- Datblygu'r man awyr agored at ddefnydd cleifion.
- Roedd angen ailosod cloeon drysau'r ward a rhoi system allwedd gyffredinol ar waith, yn hytrach na'r arfer bresennol o ddefnyddio tair allwedd wahanol. Byddai hyn hefyd yn mynd i'r afael â'r broblem o gloeon ar y ward a oedd wedi torri.
- Roedd angen caeadau a oedd yn cau'n araf ar y biniau gwastraff trwy'r holl ward
- Canllawiau ar gyfer mynd i mewn ac allan yn ddiogel rhwng y ward a'r man awyr agored
- Dylai fod man ar gyfer perthnasau sy'n ymweld sydd hefyd yn addas i blant. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i gleifion fynd ag ymwelwyr i'w hystafelloedd gwely yn ystod amseroedd ymweld.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y materion amgylcheddol a nodwyd yn cael eu hunioni.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth bod asesiadau risg addas ar waith, h.y. cwympiadau, defnyddio canllawiau gwely, symud a thrin, a mannau pwysedd. Roedd y rhain wedi cael eu hadolygu ac roedd unrhyw gamau angenrheidiol wedi'u cymryd.

Ward Ceredig

Gwelsom fod asesiadau risg wedi'u cynnal ond nad oeddent i gyd wedi'u diweddarau. Roedd coridorau'r ward yn anniben iawn a byddent yn peri risg pe bai angen gwacau'r adeilad oherwydd tân neu pe bai angen y troli cyffuriau brys ar glaf (pe bai cyflwr claf yn dirywio'n ddifrifol). Byddai'n ddoeth i'r ward roi egwyddorion Ward Drefnus lawn ar waith. Dywedwyd wrthym hefyd gan staff eu bod yn mynd â chleifion i'r theatr ar gyfer llawdriniaethau dewisol (llawdriniaethau a drefnir ymlaen llaw) er nad oedd gwely penodol ar y ward i fynd yn ôl iddo. Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r broses ar gyfer cleifion yn mynd i'r theatr i sicrhau bod gwely'n cael ei neilltuo ar gyfer gofal ôl-driniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwely'n cael ei neilltuo ar gyfer gofal ôl-driniaeth ar gyfer cleifion sy'n mynd i'r theatr.

Ward Ystwyth

Gwelsom fod asesiadau risg wedi'u cynnal ac wedi'u diweddarau yn ôl yr angen. Roedd arwyddion clir wedi eu harddangos yn y mannau lle roedd yn bosibl y gallai cleifion neu berthnasau fod mewn perygl. Gwelsom fod y ward yn mynd yn anniben yn ystod amseroedd pryd bwyd, gyda'r trolïau'n cymryd tipyn o le yn y coridorau. Gwelsom hefyd droli mawr ac arno offer glanhau wedi'i storio yn y coridor. Gallai'r ddau beth hyn beri risg pe bai angen gwacáu'r adeilad oherwydd tân. Byddai'n ddoeth i reolwr y ward ymchwilio i ffyrdd gwell o weithio yn ystod yr adegau prysur hyn.

Mae pobl yn cael cymorth i ofalu am eu croen, a gwneir pob ymdrech i atal pobl rhag datblygu briwiau pwysedd a niwed i'r meinwe. (Safon 2.2)

Ward Enlli

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward ynglŷn ag atal niwed pwysedd i groen cleifion a oedd yn hŷn neu'n eiddil, a rhoddwyd sicrwydd inni nad oedd unrhyw gleifion a chanddynt niwed pwysedd ar adeg yr arolygiad. Dywedwyd wrthym fod cysylltiadau da â'r nyrs hyfywedd meinwe (arbenigol) a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn cofnodion cleifion, ynghyd ag asesiadau risg priodol. Rhoddwyd sicrwydd inni nad oedd unrhyw broblemau o ran cael mynediad at offer arbenigol megis matresi lleddfu pwysedd.

Ward Ceredig a Ward Ystwyth

Gwelsom fod yr holl gleifion wedi cael asesiadau ar gyfer mannau lle mae risg o friwiau pwyso yn datblygu. Roedd bwndeli SKIN¹ yn cael eu defnyddio, yn

¹ Mae bwndel gofal yn gasgliad o ymyriadau. Yn yr achos hwn, ymyrraeth nyrsio sy'n cael ei dogfennu o leiaf unwaith bob dwy awr: **Arwyneb** – sicrhau bod y claf ar y fatras a'r gobennydd cywir ac nad oes unrhyw grychau neu blygiadau. **Parhau** i symud – annog cleifion i symud eu hunain, adleoli'r claf, ac archwilio'r croen. **Anymataliaeth** – bodloni anghenion y claf o ran mynd i'r toiled neu ymataliaeth. **Maeth** – sicrhau bod y claf yn yfed digon a bodloni ei anghenion maeth.

ogystal â rowndio bwriadol². Roedd rhai bylchau o dair/pedair awr yn y cofnodion ar y siartiau ar ward Ceredig. Dywedwyd wrthym fod cysylltiadau da â'r nyrs hyfywedd meinwe (arbenigol) a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn cofnodion cleifion, ynghyd ag asesiadau risg priodol. Rhoddwyd sicrwydd inni nad oedd unrhyw broblemau o ran cael mynediad at offer arbenigol megis matresi lleddfu pwysedd. Roeddem yn fodlon bod yr asesiadau risg o safon dderbyniol.

Mae pobl yn cael asesiad risg cwmpo a gwneir pob ymdrech i atal cwmpadau a lleihau niwed ac anabledd y gellir eu hosgoi. (Safon 2.3)

Ward Enlli, Ward Ceredig a Ward Ystwyth

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg cwmpo mewn cofnodion cleifion. Roedd y rhain wedi cael eu diweddarau yn ôl y gofyn. Roedd unrhyw risgiau a nodwyd yn cael eu rheoli gyda gwely uchel/isel, synwryddion a matiau cwmpo i atal a lleihau niwed i'r cleifion. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant mewn defnyddio'r offer ac yn y broses o asesu risgiau.

Mae angen i'r camau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn effeithiol fod yn fusnes i bawb, a rhaid iddynt fod yn rhan o arferion dyddiol ym maes gofal iechyd ac wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, fel bod pobl yn cael eu gwarchod rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. (Safon 2.4)

Ward Enlli

²Mewn lleoliadau aciwt mae agweddau allweddol sy'n cael eu gwirio bob dwy awr fel arfer yn cynnwys y canlynol: Ystum: Gwneud yn siŵr bod y claf yn gyfforddus ac asesu'r risg o wserau pwyso; Anghenion personol: Amseru teithiau i'r ystafell ymolchi i atal y risg o gwmpadau; Poen: Gofyn i gleifion ddisgrifio lefel eu poen ar raddfa 0 – 10; Lleoliad: Sicrhau bod yr eitem sydd eu hangen ar gleifion o fewn cyrraedd rhwydd.

Roedd gweithiwr cadw tŷ llawn amser wedi'i ddyrannu i'r ward gydag amserlenni glanhau cadarn – nid oedd y rhain wedi'u cwblhau a'u llofnodi mewn modd amserol. Felly, ni fyddai'r ddogfennaeth ei hun wedi rhoi sicrwydd inni fod y ward wedi cael ei glanhau yn unol â'r amserlenni gosod. Fodd bynnag, gwelsom fod yr amgylchedd yn lân ac yn rhydd rhag annibendod.

Roedd yr ystafell lifddor mewn ward gyfagos, a oedd yn cael ei defnyddio'n swyddfeydd gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymuned. Roedd hyn yn golygu bod angen i staff fynd heibio i ddrysau a oedd yn cael eu cadw o dan glo wrth gario gwastraff. Roedd hyn yn broblem rheoli heintiau, a gwnaethom siarad â rheolwr y ward ynghylch symud yr ystafell lifddor i ardal o fewn y ward ei hun.

Ni wnaethom weld staff yn defnyddio jel dwylo i gynnal rheoli heintiau – yn ogystal, ni wnaethom weld jel dwylo mewn ystafelloedd cleifion nac yn cael eu cario gan staff. Gwelsom fod staff yn gwisgo dillad amddiffynnol priodol pan oedd angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd symud yr ystafell lifddor er mwyn ei lleoli o fewn y ward.

Ward Ceredig

Dywedwyd wrthym fod tîm glanhau gwelyau ar gyfer yr holl ysbyty, ac roedd hyn i'w weld yn ddatblygiad da ar gyfer staff.

Roedd y gweithwyr cymorth gofal iechyd a'r staff domestig yn cael eu dyrannu i'r gwaith o gyfrif stoc a glanhau'r ward, ac er inni weld bod yr amgylchedd yn lân, roedd y ward yn anniben iawn. Mewn rhai mannau roedd eitemau yn peri annibendod ar silffoedd ffenestri, a oedd yn atal cleifion rhag gweld allan trwy'r ffenestri.

Gwelsom offer a stoc wedi eu storio ar y lloriau, a dywedodd staff wrthym eu bod wedi gofyn am silffoedd cryn amser yn ôl, er mwyn iddynt storio stoc ac offer oddi ar y llawr, ond nid oedd hyn wedi cael ei weithredu ar y pryd.

Nid oed gel dwylo ar ben pob gwely – er bod gel dwylo ym mhob cilfan ac roedd gorsafoedd gel dwylo trwy'r holl ward.

Roedd staff y ward yn gwisgo'r dillad cywir ac arnynt olwg broffesiynol. Fodd bynnag, roedd y meddygon yn gwisgo jîns ac esgidiau hyfforddi ac nid oedd eu golwg yn adlewyrchu proffesiynoldeb eu maes.

Roedd yr ystafell lifddor yn lân ond unwaith eto roedd yn anniben. Roedd comodau'n lân iawn ac roedd sticeri "glân" arnynt i nodi eu bod yn lân.

Gwelsom fod staff yn gwisgo dillad amddiffynnol priodol pan oedd angen.

Gwelsom na roddid hancesi diheintio dwylo i gleifion cyn prydau bwyd, er eu bod ar gael ar y ward. Gwelsom hefyd hambwrdd bwyd ar arno hen fwyd nad oedd wedi cael ei fwyta ar ben bin o 9am tan 1pm.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd ymchwilio i sut y gall mannau'r ward gael eu defnyddio'n well i storio offer i ffwrdd o'r coridorau, h.y. cilfannau nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o silffoedd yn y ward ar gyfer storio stoc ac offer.

Ward Ystwyth

Roedd gel dwylo yn locer pob gwely at ddefnydd staff a chleifion – roedd gorsafoedd gel dwylo yn y coridorau hefyd.

Roedd yr ystafell lifddor yn daclus ac yn ddestlus ac ychydig iawn oedd yr annibendod ynddi. Roedd yr holl offer a stoc yn cael eu storio oddi ar y lloriau. Mae angen canmol staff am eu diwydrwydd wrth gynnal y mentrau Gweddnewid Gofal³ a Ward Drefnus iawn.

Mae pobl yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion o ran maeth a hydradu, er mwyn gwella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf (Safon 2.5).

Ward Enlli

Gwelsom fod dewis digonol o fyrbrydau ar gael ar y ward megis: ffrwythau ffres, bisgedi, iogyrt, brechdanau a bara ar gyfer tost. Roedd diodydd poeth ac oer ar gael ar bob adeg. Dywedodd staff wrthym pe bai claf yn colli cinio byddai'n mynd i'r ffreutur i gasglu pryd bwyd o'i ddewis.

³Mae Gweddnewid Gofal yn fenter lle mae staff yn gallu ail-lunio prosesau trwy ddefnyddio offerynnau a dulliau effeithlon, gan ryddhau amser sy'n cael ei ailfuddsoddi mewn diogelwch cleifion ac ansawdd gofal.

Nid oedd cytleri neu lestri arbennig a oedd wedi'u haddasu i alluogi/cynorthwyo cleifion i fwyta'n annibynnol.

Roedd mynediad at Therapydd Lleferydd ac Iaith a oedd yn asesu gallu'r claf i lyncu. Gwelwyd eu hasesiadau mewn cofnodion cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cytleri a llestri wedi'u haddasu ar gael i alluogi cleifion i fwyta'n annibynnol.

Ward Ceredig a Ward Ystwyth

Roedd y ddwy ward yn defnyddio'r system "hambwrdd coch" a oedd yn nodi cleifion a oedd angen cymorth i fwyta ac yfed. Roedd yr holl gleifion yn cael eu rhoi ar eu heistedd a'r byrddau'n cael eu tacluso cyn i'r bwyd gael ei weini.

Roedd asesiadau maeth a siartiau bwyd/dŵr i fonitro cymeriant bwyd a diod dyddiol pan oedd angen. Dywedodd un claf wrthym ar ward Ceredig fod y dogn yn rhy fawr, y bwyd yn oer ac nid oedd llawer o ddewis. Gwnaethom nodi bod drysau'r droli fwyd yn cael eu gadael ar agor ac mae'n bosibl bod hyn yn peri i'r bwyd fynd yn oer yn rhy gyflym.

Roedd jygiau dŵr ar gael ac yn llawn trwy gydol ein harolygiad.

Roedd gan y ddwy ward oergell ac ynddynt fwyd ychwanegol at ddefnydd cleifion y tu allan i amseroedd prydau bwyd gosod.

Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir (Safon 2.6).

Ward Enlli

Ar y cyfan nid oeddem yn fodlon bod y trefniadau ar gyfer cofnodi, gweinyddu a storio meddyginiaeth mor effeithiol ag y gallent fod. Gwnaethom ofyn i weld polisi'r bwrdd iechyd ar gyfer storio cyffuriau yn ddiogel ac roedd y polisi hwn yn hawdd ei gyrraedd ar y fewnwyd.

Mae gan y ward ddau fferyllydd neilltuedig sy'n dod bob dydd ac yn cynnal archwiliadau stoc bob wythnos; fodd bynnag, gwelsom ormod o gyffuriau a reolir yn cael eu storio yn y cwpwrdd o dan glo. Roedd y rhan fwyaf o gyffuriau yn cael eu storio'n ddiogel, er inni weld bod cadwyn ar y troli cyffuriau ond nid oedd pwynt gosod. Roedd blwch cyffuriau brys ar gael, a oedd yn storio

cyffuriau y gallai fod eu hangen mewn argyfwng, ond nad ydynt yn cael eu rhagnodi i gleifion ar y ward fel arfer.

Unwaith eto, gwelsom fod yr ystafell glinigol, lle roedd y cyffuriau'n cael eu storio) mewn ward gyfagos a oedd yn cael ei rhannu'r â'r Tîm Iechyd Meddwl Cymuned. Roedd yr ystafell hon yn flêr ac yn anniben ac mae angen rhoi sylw i'r mater hwn.

Gwnaethom edrych ar y Cofnod Gweinyddu Meddyginiaeth a gweld bod y rhain wedi'u cwblhau'n briodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried symud yr ystafell glinigol i'r ward.

Mae angen i'r fferylllydd sicrhau bod y stoc dros ben yn cael ei symud o'r ward mewn modd amserol.

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod y troli cyffuriau yn cael ei osod yn ddiogel pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Ward Ceredig

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y trefniadau ar gyfer cofnodi, gweinyddu a storio meddyginiaeth yn ddiogel. Gwelsom fod drws yr ystafell feddyginiaeth a'r cypyrddau ynddi'n cael eu cadw o dan glo ar bob adeg; roedd hyn yn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd yr oergell a oedd yn storio'r feddyginiaeth o dan glo, ac nid oedd tymheredd yr oergell yn cael ei gofnodi bob dydd i sicrhau'r amgylchedd gorau ar gyfer storio.

Roedd thermomedr tymheredd amgylchynol yn yr ystafell feddyginiaeth a oedd wedi'i osod yn ddiweddar. Pan wnaethom ofyn i staff ynghylch y gwaith o'i gynnal a'i gadw gwnaethant ddweud nad oeddent yn ei ddeall, ac nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ynglŷn â chofnodi gwybodaeth. Gwnaethom nodi hefyd fod y thermomedr wedi'i osod ger yr oergell, a oedd yn creu gwres ac o ganlyniad yn effeithio ar ddarlleniad y thermomedr.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth a gweld bod yr holl gofnodion nyrsio wedi'u cwblhau'n gywir. Gwelsom nad oedd meddygon wedi rhagnodi Ocsigen i gleifion a oedd yn derbyn therapi, ac nid oeddent wedi dogfennu alergeddau ym mhob achos.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion storio a gweinyddu ar gyfer cyffuriau a reolir, a gwirio i weld a oedd cleifion yn gwisgo bandiau adnabod, a gweld bod popeth yn gywir.

Dywedwyd wrthym fod rhagnodi meddyginiaeth ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau ar ddydd Gwener yn broblem, oherwydd bod meddygon iau'n derbyn hyfforddiant bore ddydd Gwener ac nad oeddent yn gallu rhoi sylw i geisiadau'r ward tan ar ôl cinio. Roedd hyn yn gohirio rhyddhau cleifion cyn y penwythnos.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod tymheredd yr oergell a'r thermomedrau tymheredd amgylchynol yn cael eu gwirio bob dydd.

Rhaid i feddygon llawfeddygol sicrhau bod therapi Ocsigen yn cael ei ragnodi, a bod unrhyw alergeddau'n cael eu cofnodi ar y Siartiau Gweinyddu Meddyginiaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddygon iau ar gael i ragnodi meddyginiaeth mewn modd amserol, yn enwedig yn union cyn y penwythnos.

Ward Ystwyth

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y trefniadau ar gyfer cofnodi, gweinyddu a storio meddyginiaeth yn ddiogel. Gwelsom fod yr ystafell feddyginiaeth a'r cypyrddau a'r oergell ynddi o dan glo ar bob adeg, ac roedd hyn yn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd tymheredd yr oergell a oedd yn storio meddyginiaeth yn cael ei gofnodi bob dydd i sicrhau'r amgylchedd gorau ar gyfer storio.

Unwaith eto roedd thermomedr tymheredd amgylchynol yn yr ystafell feddyginiaeth a oedd wedi'i osod yn ddiweddar. Pan wnaethom ofyn i staff ynghylch y gwaith o'i gynnal a'i gadw gwnaethant ddweud nad oeddent yn ei ddeall, ac nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ynglŷn â chofnodi gwybodaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth a gweld bod yr holl gofnodion nyrsio wedi cael eu cwblhau'n gywir, gyda chyffuriau nad oeddent wedi cael eu cynnwys wedi eu nodi'n glir.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion storio a gweinyddu ar gyfer cyffuriau a reolir, a gwirio i weld a oedd cleifion yn gwisgo bandiau adnabod, a gweld bod popeth yn gywir.

Gallai'r cleifion weinyddu eu meddyginiaeth eu hunain ar ôl ystyried eu bod yn ddigon iach a'u bod yn dymuno gwneud hynny. Gwelwyd loceri meddyginiaeth y cleifion eu hunain ger eu gwelyau.

Roedd trefn electronig ar waith ar gyfer meddyginiaeth “i fynd adref”, a oedd yn galluogi i gleifion gael eu rhyddhau i fynd adref mewn modd a oedd yn addas iddynt.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod tymheredd yr oergell a'r thermomedrau tymheredd amgylchynol yn cael eu gwirio bob dydd.

Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg.(Safon 2.7)

Ward Enlli

Roedd staff cyfredol wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac roedd hyn wedi'i ddiweddu. Roedd yr hyfforddiant eisoes wedi cael ei drefnu ar gyfer pedwar aelod newydd o staff. Roedd yn hawdd dod o hyd i bolisiâu a gweithdrefnau ar y fewnwyd.

Ward Ceredig a Ward Ystwyth

Roedd staff ar y ddwy ward wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu. Roedd y ddwy ward yn cynnal asesiad diogelu wrth dderbyn cleifion i'r ward. Roedd ward Ystwyth hefyd yn cynnal Sgrinio am Dementia ar yr adeg hon, sy'n dystiolaeth o arfer nodedig.

Mae gwasanaethau iechyd yn sicrhau dulliau caffael, defnyddio a gwaredu offer, dyfeisiau a systemau diagnostig meddygol yn ddiogel ac effeithiol.(Safon 2.9)

Ward Enlli, Ward Ceredig a Ward Ystwyth

Dywedodd rheolwyr y wardiau nad oedd unrhyw broblemau o ran caffael cymhorthion i helpu cleifion; er i ffisiotherapyddion ddweud wrthym fod fframiau cerdded Zimmer yn cymryd amser hir i gael eu dosbarthu i gleifion sy'n byw y tu allan i Aberystwyth, ac roedd hyn yn gwastraffu amser ac adnoddau gweithwyr proffesiynol. Gwelsom fod offeryn codi a oedd wedi'i wasanaethu o fewn yr amserlen y cytunwyd arni, cloriannau yr eisteddir arnynt, gwelyau synhwyro, a

bod comodau'n cael eu storio yn yr ystafell lifddor – roedd y rhain hefyd wedi cael eu glanhau ar ôl iddynt gael eu defnyddio ac eto yn unol â'r amserlen wythnosol.

Gofal effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. (Safon 3.1)

Ward Enlli

Dywedodd staff wrthym fod y trefniadau ar gyfer cysylltu â'r wardiau cyffredinol wedi gwella, ac y gallent ofyn am gymorth a chyfarwyddyd gan eu cydweithwyr nyrsio pan oedd angen. Fodd bynnag, dangosodd trafodaethau â'r wardiau cyffredinol nad oedd hyn yn cael ei ddychwelyd, ac nad oedd cymorth gyda chleifion a chanddynt anghenion iechyd meddwl ar ward gyffredinol yr un mor hygyrch. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym fod y bwrdd iechyd wrthi'n datblygu'n strwythur nyrsio yr oeddent yn gobeithio y byddai'n mynd i'r afael â'r problemau hyn. Dywedwyd wrthym hefyd am fentrau arloesol a oedd yn cael eu treialu yn ysbytai Gorllewin Cymru a, phe byddent yn llwyddiannus, byddent yn cael eu cyflwyno i ardaloedd megis ward Enlli; gan y byddai hyn o fudd i staff a chleifion.

Roeddem yn fodlon bod ward Enlli, ar ôl cyfnod anodd, yn gwneud cynnydd araf wrth ddatblygu ei gwasanaeth yn unol â chanllawiau arfer gorau, ac roedd rhai o'r newidiadau hyn yn cynnwys eitemau ac arwyddion sy'n addas i bobl â dementia.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod y ward yn dychwelyd y cymorth mae'n ei gael gan wardiau eraill, trwy roi cymorth gyda phroblemau iechyd meddwl ar wardiau cyffredinol.

Ward Ceredig a Ward Ystwyth

Gwnaethom glywed staff yn siarad Cymraeg ar y ddwy ward. Roedd bwndeli gofal⁴ yn cael eu defnyddio a gwelsom dystiolaeth o'r offeryn NEWS⁵ yn cael ei ddefnyddio ar ward Ystwyth. Gwelsom hefyd dystiolaeth o lwybrau strôc, ac roedd nyrs strôc arbenigol arloesol yn cynnal ymchwil ac archwiliadau ar ward Ystwyth. Nid oedd dystiolaeth o lwybr Gwddf y Ffemwr na chydlynnydd trawma ar ward Ceredig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr ward Ceredig sicrhau bod llwybrau cenedlaethol a lleol yn cael eu cynnwys mewn arferion pob dydd.

Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried datblygu rôl cydlynnydd trawma ar gyfer ward Ceredig.

Wrth gyfathrebu â phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2)

Ward Enlli

Gwelsom a chlywsom staff yn cyfathrebu â chleifion mewn modd urddasol a pharchus. Yn ôl pob golwg roedd staff yn gwrando ar bryderon cleifion ac yn rhoi cymorth pan oedd angen. Ar ddiwrnod ein harolygiad roedd chwech o'r cleifion yn siaradwyr Cymraeg. Nid oedd unrhyw staff nyrsio cymwysedig a oedd yn siaradwyr Cymraeg; fodd bynnag, fe glywsom weithwyr cymorth gofal iechyd a'r gweithwyr cadw tŷ'n siarad â chleifion yn Gymraeg.

⁴Mae bwndel yn ffordd strwythuredig o wella'r prosesau gofal a chanlyniadau i gleifion: set fach, syml o arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth – fel arfer rhwng tri a phump, y profwyd eu bod yn gwella canlyniadau i gleifion, pan fyddant yn cael eu gweithredu ar y cyd ac mewn modd dibynadwy.

⁵ Mae'r System Rhybudd Cynnar Genedlaethol (NEWS) yn cynorthwyo aelodau staff gofal iechyd i ganfod dirywiad yng nghyflwr cleifion yn gyson, fel y gallant alw am help meddygol brys.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth o gymhorthion cyfathrebu megis cardiau fflach neu fatiau siarad. Roedd hyn hefyd yn golygu y gallai cyfathrebu ynglŷn â dewis bwyd a diod gael eu hamharu, gan nad oedd lluniau neu ddelweddau'n cael eu defnyddio i hyrwyddo dewis.

Er nad oedd gwybodaeth ar gael am wasanaethau eiriolaeth, fe welsom mewn dogfennau cleifion eu bod wedi gwneud cyfraniad. Gwelsom hefyd berthnasau'n cymryd rhan yn y broses gynllunio, a gwelwyd staff yn siarad â chleifion a'u perthnasau'n glir ac yn araf er mwyn eu helpu i ddeall. Roedd dystiolaeth hefyd o gael mynediad at wasanaethau Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol ac Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol.

Ward Ceredig

Gwelsom staff yn gwisgo bathodynau i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg a chlywsom y Gymraeg yn cael ei siarad ar y ward.

Dywedodd un claf wrthym fod y cyfathrebu ynglŷn â'r gofal a oedd wedi'i gynllunio yn wael, ac nid oedd y claf na'r teulu'n ymwybodol o ba dîm oedd yn goruchwyllo'r gofal neu'r cynllun rhyddhau.

Gwelsom fod y cynllun Pili-pala'n cael ei ddefnyddio ar y ward ond nid oedd yn cael eu dogfennu. Roedd hefyd staff wedi eu dynodi'n Hyrwyddwyr Dementia a oedd wedi cyflwyno bocsys gwrthdynnu sylw. Roedd hyn yn enghraifft o arfer nodedig, er eu bod yn peri problem o ran rheoli heintiau rhwng cleifion.

Roedd angen i gydlynnydd y ward gario ffôn cludadwy ar bob adeg; ond nid yw'r aelod hwn o staff yn ychwanegol i'r niferoedd gofynnol, ac o'r herwydd roedd adegau pan fyddai'r ffôn yn canu'n gyson pan oedd yr aelod o staff yn cyflawni dyletswydd glinigol. Roedd hyn yn tarfu ar ei waith ac yn peri pryder, yn enwedig wrth roi cymorth personol uniongyrchol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward wella'r trefniadau cyfathrebu rhwng staff a chleifion o ran cynllunio gofal a rhyddhau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ymchwilio i ddulliau amgen ar gyfer cyfathrebu â chydlynwyr i sicrhau nad yw gofal uniongyrchol cleifion yn cael ei amharu.

Ward Ystwyth

Gwelsom fod y cynllun Pili-pala'n cael ei ddefnyddio ar y ward ac yn cael ei ddogfennu, a'r wybodaeth berthnasol yn cael ei rhoi ar fwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion.

Roedd enw o ddewis yr holl gleifion uwchben eu gwely er mwyn i staff wybod sut i'w cyfarch.

Gwelsom reolwr y ward yn gwneud galwad ar y ffôn cludadwy yn y cilfan cleifion. Roedd cleifion yn gallu clywed y sgwrs a allai fod wedi bod am fater cyfrinachol.

Nid oedd yr holl staff yn gwisgo bathodynau i ddangos pwy oeddent, neu a oeddent yn gallu siarad Cymraeg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd o'r ffôn symudol gan staff ar y ward.

Mae gwasanaethau iechyd yn sicrhau bod gwybodaeth yn gywir, yn ddilys, yn ddibynadwy, yn amserol, yn berthnasol, yn ddealladwy ac yn gyflawn wrth gyflawni'r gwaith o ddarparu, rheoli, cynllunio a monitro gwasanaethau diogel o ansawdd uchel.

Mae gan wasanaethau iechyd systemau ar waith, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, i sicrhau bod data a gwybodaeth o ansawdd uchel yn cael eu casglu, eu rhannu ac yr adroddwyd amdanynt o fewn fframwaith llywodraethu gwybodaeth gadarn. (Safon 3.4)

Ward Enlli, Ward Ceredig a Ward Ystwyth

Roeddem yn fodlon bod gwybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Dywedodd staff wrthym fod systemau electronig yn araf oherwydd cysylltiadau rhyngwrwyd gwael, a nifer y staff sy'n defnyddio'r system. Roedd hyn yn golygu na ellid golygu cofnodion cleifion mewn modd amserol bob amser.

Roedd systemau Datix⁶ yn cael eu defnyddio i gofnodi digwyddiadau blin, damweiniau neu bryderon. Ar ward Ceredig gwelsom fod ôl-groniad sylweddol

⁶Mae meddalwedd DATIX yn adnodd a ddefnyddir yn y GIG i gofnodi, ymchwilio a dadansoddi achos digwyddiadau andwyol ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd.

yn y gwaith o gau'r cofnodion hyn â chanlyniadau priodol. Mae angen i reolwr y ward roi sylw i'r mater hwn.

Gwnaethom edrych ar y system a oedd ar waith ar gyfer cofnodi hyfforddiant staff a gweld nad oedd wedi cael ei diweddarau ac nad oedd yn adlewyrchu'r hyfforddiant yr oedd y staff ar ward Enlli wedi'i gwblhau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall staff gael mynediad at gofnodion cleifion mewn modd amserol.

Mae angen diweddarau'r system ar gyfer cofnodi hyfforddiant staff i adlewyrchu'r hyfforddiant a gwblhawyd.

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ynglŷn â safonau clinigol. (Safon 3.5)

Ward Enlli

Gwelsom dystiolaeth bod taflenni newid shift yn cael eu defnyddio, ac mae hyn yn arfer nodedig oherwydd ei fod yn sicrhau bod gwybodaeth am ofal cleifion yn cael ei throsglwyddo o un shift i'r llall mewn modd clir.

Roedd nifer fawr o ddogfennau a oedd ar ffurf electronig a phapur, ac roedd hyn yn ei gwneud yn anodd dilyn y llwybr gofal y cytunwyd arno a chynnal trosolwg cyfannol o'r claf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu ei ddogfennaeth i atal dyblygu, ac i sicrhau bod llwybrau gofal yn hawdd eu rheoli ac yn hawdd eu cyrraedd.

Ward Ceredig

Er bod y dogfennau'n anhrefnus ac yn cynnwys gwybodaeth a oedd wedi dyddio, ar y cyfan roedd safon y cadw cofnodion yn dda. Roedd rhai rhannau nad oeddent wedi cael eu cwblhau'n llawn bob amser megis:

- Dyddiad, amser a llofnod ar gofnodion nyrsio
- Asesiadau risg nad oeddent wedi'u diweddarau

- Taflenni llofnodion nyrsio nad oeddent wedi cael eu diwedddaru
- Nid oedd enwau ar gofnodion meddygol. Mae hyn wedi'i nodi yn adroddiadau AGIC ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod dogfennaeth yn cael ei gwblhau'n llawn a'u diwedddaru mewn modd amserol.

Rhaid i feddygon sicrhau bod enwau'n cael eu nodi ar bob cofnod sy'n cael ei ddogfennu, fel sy'n ofynnol yn ôl canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Hefyd gwelsom nifer sylweddol o adroddiadau am ganlyniadau profion gwaed nad oeddent wedi'u ffeilio oherwydd mai un clerc yn unig a oedd ar y ward. Byddai'n ddoeth pe bai'r gyfarwyddiaeth a rheolwr y ward yn archwilio sut mae wardiau eraill yn rheoli'r broses hon.

Ward Ystwyth

Gwelsom ddull cydweithredol iawn yn seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer cofnodi gofal cleifion a oedd wedi cael strôc. Fodd bynnag, gwelsom broblemau'n debyg i'r rhai ar ward Ceredig o ran cofnodion meddygaeth gyffredinol cleifion. Mae angen rhoi sylw i'r meysydd canlynol hefyd:

- Nid oedd ffurflen dderbyn brys rhan B wedi'i gwblhau'n llawn; ac nid oedd y dudalen drosglwyddo, asesiadau hanfodion gofal ac un dudalen arall wedi eu cwblhau o gwbl.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod dogfennaeth yn cael ei gwblhau'n llawn a'u diwedddaru mewn modd amserol.

Rhaid i feddygon sicrhau bod enwau'n cael eu nodi ar bob cofnod sy'n cael ei ddogfennu, fel sy'n ofynnol yn ôl canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Gofal amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn derbyn gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, a chyda'r staff cywir.

Ward Enlli

Dywedodd staff wrthym fod lefelau staffio'n dda; roedd hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal amserol. Gwelsom staff yn gweithio'n ddyfal i ddarparu gofal mewn modd urddasol, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion.

Fe'n gwahoddwyd i gyfarfod y tîm amlddisgyblaethol a gwnaethom wrando ar drafodaeth dda a chlr am ofal unigol cleifion.

Ni welsom dystiolaeth o wybodaeth ynglŷn â gofal ysbrydol cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai rheolwr y ward sicrhau bod anghenion ysbrydol cleifion yn cael eu diwallu.

Ward Ceredig

Roedd y staff yn brysur iawn a dywedodd staff wrthym fod nifer uchel o staff asiantaeth yn cael eu defnyddio. Gwelsom dystiolaeth o lwybrau megis llwybr gwddf y ffemwr yn cael eu defnyddio; ond nid oedd yr egwyddorion hyn yn cael eu dilyn, ac mae angen gwella'r rhain er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo o'r adran damweiniau ac achosion brys i ward unwaith y cadarnheir bod y glun wedi torri. Byddai hyn yn gwella profiad a diogelwch y claf ac yn darparu gofal mwy amserol; oherwydd ei fod yn caniatáu mynediad uniongyrchol at y ward.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn aros am sganiau ac nid oeddent wedi'u hysbysu ynglŷn ag am ba hyd y byddai'n rhaid iddynt aros. Dywedwyd wrthym hefyd am glaf mewn gwely aciwt a oedd yn aros am fewnbwn gan wasanaethau cymdeithasol er mwyn ei ryddhau i'w gartref ei hun.

Yn ôl pob golwg nid oedd y lolfa ryddhau'n cael ei defnyddio at ei diben, ac o ganlyniad bu oedi wrth wagio gwelyau aciwt ar gyfer llwybrau cleifion amserol trwy'r ysbyty cyfan. Dywedodd rheolwr y ward wrthym am y cynllun Tocyn Adref⁷ roedd y ward yn gobeithio ei ddatblygu, ond nid oedd hwn ar waith yn ystod ein hymweliad ni. Dywedodd staff wrthym hefyd

⁷Mae'r cynllun Tocyn Adref yn fenter newydd lle y dywedir wrth bob claf am ei ddyddiad rhyddhau pan fydd yn cyrraedd, a rhoddir sticer mawr ac arno'r dyddiad hwn ar y locer ger ei wely.

bod cryn dipyn o waith rhyddhau'n cael ei adael i staff parhaol ei gwblhau, oherwydd bod y staff asiantaeth yn dod o Loegr ac nad oeddent yn deall y prosesau mewn ysbytai Cymru. Dywedwyd wrthym hefyd fod y tîm cyswllt rhyddhau yn dda iawn, ac yn cynorthwyo gyda chyfarfodydd amlddisgyblaethol a strategaeth ryddhau, oherwydd nad oedd gan staff y ward yr amser i fynychu.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod anghenion ysbrydol cleifion yn cael eu diwallu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd ymchwilio i'r rhesymau dros yn amseroedd aros am sganiau, a cheisio rhoi sylw iddynt.

Mae angen i'r bwrdd iechyd ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw'r lolfarhyddhau'n cael ei defnyddio at ei diben.

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd o staff asiantaeth nad ydynt yn deall y safonau a'r canllawiau yn ysbytai Cymru.

Dylai rheolwr y ward sicrhau bod anghenion ysbrydol cleifion yn cael eu diwallu.

Ward Ystwyth

Roedd y ward yn brysur iawn a dywedodd y staff wrthym fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i ryw raddau. Gwelsom dystiolaeth o lwybrau megis y llwybr strôc yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn gwella profiad y claf ac yn darparu gofal mwy amserol.

Gwranddo a Dysgu o Adborth

Rhaid i bobl sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau i'r rhai a ddarparodd eu gofal, fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir ac ymdrin â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn gweithredu yn dilyn adborth ac yn dysgu ohono.

Ward Enlli a Ward Ceredig

Ni welsom y ddogfen "Gweithio i Wella"⁸ ar gael ar y wardiau. Fodd bynnag, pan wnaethom siarad â rheolwyr y ward dywedwyd wrthym fod staff yn dilyn yr egwyddorion ac yn gyntaf yn ceisio ymdrin â phryderon cleifion neu berthnasau ar lefel leol.

Nid oedd blwch awgrymiadau/ffurflenni adborth cleifion/llyfr sylwadau ar y wardiau ar gyfer casglu sylwadau cleifion a pherthnasau ynghylch y gofal a oedd yn cael ei ddarparu ar y ward. Fodd bynnag, fe welsom nifer o gardiau diolch yn y swyddfa.

Nid oedd tystiolaeth o unrhyw archwiliadau o adborth cleifion na byrddau "Gwybod sut rydym yn gwneud".

Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r holiadur staff yn dangos y gellid gwella'r prosesau cyffredinol ar gyfer cyfathrebu â staff, er mwyn dysgu yn sgil adrodd am ddigwyddiadau arwyddocaol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod y weithdrefn gwyno'n ar gael ac yn hygyrch i gleifion a pherthnasau.

Mae angen i'r ward sicrhau ei bod yn gwrando ar brofiad cleifion/perthnasau ac yn dysgu ganddynt.

Ward Ystwyth

Gwelsom fod y ddogfen "Gweithio i Wella" ar gael ar y ward, a dywedodd rheolwr y ward wrthym fod staff yn dilyn yr egwyddorion ac yn gyntaf yn ceisio ymdrin â phryderon cleifion neu berthnasau ar lefel leol.

Ni welsom flwch awgrymiadau/ffurflenni adborth cleifion/llyfr sylwadau ar y wardiau ar gyfer casglu sylwadau cleifion a pherthnasau ynghylch y gofal a oedd yn cael ei ddarparu ar y ward.

Roedd tystiolaeth o archwiliadau o ofal cleifion a glendid, a rhoddwyd enghreifftiau inni o sut roedd y ward wedi gwella trwy gleifion yn lleisio pryderon.

⁸ Ym mis Ebrill 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau newydd ar gyfer rheoli pryderon: *Gweithio i Wella*.

Roedd ymatebion i'r holiadur staff yn dangos bod y cyfathrebu rhwng rheolwyr a staff yn dda, a bod dysgu'n digwydd yn sgil adrodd am ddigwyddiadau arwyddocaol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roeddem yn fodlon bod y rheolaeth a'r arweinyddiaeth ar ward Ystwyth yn gryf ac yn arloesol. Fodd bynnag, roedd dulliau ward Enlli a ward Ceredig yn llai ysgogol ac yn cynnwys llai o feddwl blaengar.

Roedd niferoedd staff a recriwtio a chadw staff yn bryder ar y wardiau cyffredinol ond nid ar ward Enlli. Roedd hyn yn peri goblygiadau o ran hyfforddiant a morâl staff. Roedd cryn bryderon ynglŷn â chyfathrebu â'r system cronfa staff fewnol a'r asiantaeth roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn eu defnyddio i gaffael staff dros dro.

Cadarnhaodd pob rheolwr fod cefnogaeth dda gan uwch-reolwyr, er i staff y ward ddweud y byddent yn gwerthfawrogi gweld rhagor o uwch-reolwyr ar y ward.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu anghenion (Safon 7.1).

Ward Enlli

Bu cyfnod o newid strwythur staff yn ddiweddar sydd, yn ôl pob golwg, yn cael dylanwad mwy cadarnhaol ar y gwaith o redeg y ward. Dywedodd staff wrthym hefyd fod morâl wedi gwella'n sylweddol yn y misoedd diwethaf.

Er bod niferoedd uchel o staff, mae recriwtio staff cymwysedig yn parhau i fod yn broblem. Mae dwy nyrs newydd gymhwyso wedi'u recriwtio i swyddi gwag. Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod tîm staff gweddol sefydlog, ac ychydig iawn o nyrsys asiantaeth oedd yn cael eu defnyddio. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn dilyniant gofal gan staff a oedd yn adnabod eu hanghenion.

Roedd hyfforddiant, goruchwyliaeth ac arfarniadau staff wedi'u diweddarau.

Ward Ceredig a Ward Ystwyth

Roedd cryn heriau o ran staffio, ac o ganlyniad roedd nifer uchel o staff asiantaeth yn cael eu defnyddio. Roedd yr asiantaeth wedi'i lleoli yn Lloegr ac roedd hyn yn peri pryder gan fod diffyg dealltwriaeth o brosesau Cymru. Roedd hefyd pryder ynglŷn â'r profiad priodol, gyda llawer o'r nyrsys asiantaeth wedi'u hyfforddi mewn nyrsio cymunedol nid gofal aciwt. Gwelsom hefyd fod nifer o broblemau Diogelu ar y pryd, wedi eu codi yn erbyn staff o'r un asiantaeth.

Dywedodd staff wrthym fod angen rhoi hyfforddiant ymsefydlu i staff yn aml, er eu bod wedi'u cynnwys yn y niferoedd. Rhoddwyd enghreifftiau inni lle na fu ond un aelod parhaol o staff, a phob un o'r gweddill o'r asiantaeth.

Roedd system cronfa staff fewnol, ond dywedodd staff wrthym y gellid gwella'r cyfathrebu rhwng rheolwyr y gronfa staff a'r wardiau, a rhoddwyd enghreifftiau inni lle nad oedd nyrsys wedi dod i weithio shifft, ac roedd y gronfa staff yn gwybod am y mater hwn ond wedi methu dweud wrth y ward; gwelsom weithiwr cymorth gofal iechyd a oedd wedi dod o'r gronfa staff i weithio shifft pan nad oedd y ward wedi gofyn am staff. Dywedwyd wrthym hefyd ei bod yn anodd iawn cysylltu â'r gronfa staff dros y ffôn.

Oherwydd y diffyg staff, gwnaethom ofyn am y gallu i fynychu hyfforddiant, a dywedwyd wrthym fod staff wedi'u hysbysu y byddai'n rhaid iddynt fynychu hyfforddiant yn eu hamser eu hunain, gan nad oedd y capasiti i ryddhau staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r broses ar gyfer caffael staff asiantaeth, i sicrhau bod staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol i wneud y gwaith y disgwylir iddynt ei wneud.

Mae angen i'r bwrdd iechyd wella'r dulliau cyfathrebu a'r systemau rhwng rheolwyr y gronfa staff a'r wardiau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. (Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2, Tudalen 8)

Ward Enlli

Gwelsom fod arweinyddiaeth gref gan y rheolwr gwasanaeth dros dro, ac mae'n bosibl mai dyma sydd wedi gyrru'r morâl a'r ddarpariaeth gwasanaeth well a welwyd yn ystod ein harolygiad. Mae'r cyfuniad newydd o reolwr ward profiadol a gwybodus â phrif nyrs ward ragweithiol, arloesol ac sy'n llawn cymhelliant wedi symud y ward ymlaen mewn modd cadarnhaol.

Clywsom fod fforwm rheolwyr wedi'u datblygu, a oedd yn galluogi pob un o'r tri rheolwr o'r wardiau iechyd meddwl i bobl hŷn ar draws y bwrdd iechyd gwrdd i rannu'r arferion gorau. Mae hyn yn enghraifft o arfer nodedig, oherwydd ei bod

yn hawdd i reolwyr ward deimlo'n ynysig oherwydd lleoliad daearyddol y wardiau.

Ward Ceredig

Nid oedd rheolwr y ward ar gael ar ddiwrnodau ein harolygiad; fodd bynnag, cawsom drafodaethau hir gyda'r ddau ddirprwy reolwr. Gwelsom ddulliau amrywiol o arwain a rheoli, gydag un rheolwr i'w weld yn ysgogedig, yn ymgysylltiedig ac yn meddwl mewn modd blaengar, a'r llall i'w weld yn fwy dadrithiedig a negyddol. Dywedodd y ddau eu bod yn derbyn cefnogaeth weladwy gan eu huwch-reolwyr.

Trwy drafodaethau â staff a'r atebion yn yr holiaduron staff, gwnaethom ddysgu bod morâl staff yn isel, yr hyfforddiant yn wael a staff yn teimlo pe paent yn "ymladd tân".

Dywedodd un aelod o staff y canlynol wrthym: "Ni fu cyfarfod staff ers imi ddechrau yn y swydd nifer o flynyddoedd yn ôl".

Ni welsom dystiolaeth glir o ofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf, archwiliadau ystyrion na gwaith monitro safonau gyda'r nod o wella canlyniadau ar gyfer cleifion.

Ni roddwyd sicrwydd inni fod rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol ym mhob rhan o'r ward.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r diffyg rheolaeth ac arweinyddiaeth gref ar y ward.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt er mwyn iddynt wneud y gwaith y disgwylir iddynt ei wneud.

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod archwiliadau a gwaith monitro safonau'n cael eu cynnal ar adegau rheolaidd, ac y dysgir gwersi o'r wybodaeth a gesglir.

Ward Ystwyth

Er bod problemau staffio, dywedwyd wrthym y byddai staff y ward yn ceisio cyflenwi staff sy'n absennol, pan oedd modd gwneud hynny, er mwyn sicrhau dilyniant a chysondeb gofal ar gyfer cleifion.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth a rheolaeth gref ac arloesol gan reolwr y ward. Roedd y ward yn brysur ond yn cael ei rheoli'n dda.

Tynnwyd ein sylw at ddigwyddiad y gwnaethom ei drafod â rheolwr y ward, a chymerwyd camau ar unwaith. Fe'n hysbyswyd bod y mater wedi derbyn sylw boddhaol erbyn diwedd y dydd.

5. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn systemig ar draws adrannau/unedau eraill o fewn y sefydliad ehangach.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pryd bydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A

Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

Ysbyty: Bronglais

Ward/Adran: Ward Enlli

Dyddiad yr arolygiad: 7 ac 8 Medi 2016

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
Tudalen 10	Rhaid i staff sicrhau bod dŵr yfed ar gael i gleifion 24 awr y dydd. Safon 2.5	Bydd jygiau dŵr a gwydrau yn cael eu rhoi ar hambwrdd yn ardal dydd y ward. Bydd y dŵr yn cael ei newid am 8am, 12pm, 4pm a 8pm. Pan fydd cleifion yn mynd i'r gwely rhoddir jwg o ddŵr a gwydr yn yr ystafell ar fwrdd ger y gwely.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd 20/10/16
Tudalen 10	Rhaid i staff sicrhau bod gan gleifion seiniwr a'u bod yn ymateb i larymau galw am gymorth mewn modd amserol. Safon 2.1	Bydd staff yn gwneud teithiau cerdded ac ymgysylltu â chleifion yn rheolaidd, yn ogystal ag arsylwi, er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu galw staff pan fydd angen. Mae botymau i alw am y risg o glymiad ym mhob un o'r ystafelloedd	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd 20/10/16

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		gwely a'r tai bach/ystafelloedd ymolchi. Mae staff yn cynnal gwiriadau bob wythnos i sicrhau bod y system larwm galw am gymorth yn gweithio'n effeithiol.		
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol				
Tudalen 13	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod taflenni gwybodaeth ar gyfer cleifion a'u gofalmwr ar gael ar y ward. Safon 1.1	Ar hyn o bryd mae ward Enlli yn archebu raciau newydd ar gyfer taflenni gwybodaeth y gellir eu gosod yn y ward er mwyn rhoi mynediad hawdd at wybodaeth. Mae nifer o raciau taflenni gwybodaeth, wedi eu llenwi â gwybodaeth, ar y wal ar yr ochr chwith wrth i gleifion/ymwelwyr fynd i'r ward ar bwys brif fynedfa ward Enlli. Bydd rhagor o raciau taflenni'n cael eu gosod yn y brif ardal ymwelwyr ar ward Enlli.	Rheolwr y Ward	Ionawr 2017
Tudalen 14	Mae angen i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r pwyntiau clymu a nodwyd i gael gwared ar y risg o gleifion yn hunan-niweidio. Safon 2.1	Mae archwiliad o'r holl wardiau iechyd meddwl yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a fydd yn nodi pwyntiau clymu. Bydd gan bob ward ei harchwiliad ei hun ac mae cynllun gwaith â blaenoriaeth wrthi'n cael ei gymeradwyo.	Pennaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn/Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn	Tachwedd 2016
Tudalen	Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
14	problemau amgylcheddol a nodwyd yn cael eu hunioni: - Ail-leoli'r ystafell gwastraff clinigol/lifddor i atal yr arfer o gario gwastraff trwy'r ward i ran arall o'r ysbyty. - Ailaddurno er mwyn bodloni'r canllawiau ynglŷn ag addasrwydd i bobl â dementia. - Datblygu'r man awyr agored at ddefnydd cleifion. - Roedd angen ailosod cloeon drysau'r ward a rhoi system allwedd gyffredinol ar waith, yn hytrach na'r arfer	Bydd Adran Ystadau Hywel Dda yn prisio'r gwaith hwn ac yn edrych am ardal o fewn ward Enlli lle y gellir symud yr ystafell lifddor. Cafodd ward Enlli ei hailaddurno'n ddiweddar, mae rhannau o'r ward yn dal i gael eu haddurno yn unol â'r chanllawiau ynglŷn ag addasrwydd i bobl â dementia, ac mae drysau'r tai bach wedi cael eu paentio'n las yn ddiweddar. Bydd arwyddion darluniadol melyn yn cael eu defnyddio ar draws yr holl uned yn unol ag arwyddion sy'n addas i gleifion â dementia. Mae'r man awyr agored wrthi'n cael ei ailwampio gan grŵp anableddau dysgu lleol yn Aberystwyth, sydd hefyd wedi helpu i godi arian tuag at wella mannau awyr agored ward Enlli. Trafod â rheolwr yr Adran Ystadau ynglŷn â newid y cloeon i system gyffredinol ar ward Enlli.	Rheolwr Gwasanaeth/Rheolwr y Ward/Adran Ystadau Rheolwr y Ward/Adran Ystadau Grŵp Anabledd Dysgu Aberystwyth/Rheolwr y Ward Rheolwr Gwasanaeth/Adran Ystadau	31ain Mawrth 2017 I'w adolygu mis Ebrill 2017 31ain Mawrth 2017 I'w adolygu mis Ebrill 2017 I'w adolygu mis Ebrill 2017

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	bresennol o ddefnyddio tair allwedd wahanol. Byddai hyn hefyd yn mynd i'r afael â'r broblem o gloeon ar y ward a oedd wedi torri. • Roedd angen caeadau a oedd yn cau'n araf ar y biniau gwastraff trwy'r holl ward. • Canllawiau ar gyfer mynd i mewn ac allan rhwng y ward a'r man arwyr agored • Dylai fod ardal ar gyfer perthnasau sy'n ymweld sydd hefyd yn addas i blant. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i gleifion fynd ag ymwelwyr i'w hystafelloedd gwely yn ystod amseroedd ymweld. Safonau 2.1; 2.3; 6.2	Archebu biniau newydd trwy'r Gwasanaethau Gwesty. Cysylltu ag Adran Ystadau Ysbyty Bronglais i archebu canllawiau sy'n rhydd rhag pwyntiau clymu ar gyfer y ward. Mae ystafell yn cael ei hailddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer perthnasau/gofalwyr sy'n ymweld â ward Enlli, dyma hefyd lle bydd y taflenni gwybodaeth newydd yn cael eu lleoli. A hyn o bryd mae'r ystafell yn cael ei defnyddio fel man ymwelwyr sy'n addas i blant ar gyfer ward Enlli.	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	Rhagfyr 2016 Ionawr 2017 Ionawr 2017
Tudalen 18	Mae angen i'r bwrdd iechyd symud yr ystafell lifddor er mwyn ei lleoli o fewn y ward. Safon 2.4	Bydd Adran Ystadau Hywel Dda yn prisio'r gwaith hwn, ac yn edrych am ardal o fewn ward Enlli lle y gellir symud yr ystafell lifddor.	Rheolwr Gwasanaeth	Ebrill 2017

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 19	Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymhorthion priodol ar gael i alluogi cleifion i fwyta'n annibynnol. Safon 2.5	Mae ward Enlli wedi archebu cymhorthion priodol i sicrhau eu bod ar gael i gleifion bwyta'n annibynnol.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Hydref 2016
Tudalen 20	Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried symud yr ystafell glinigol i'r ward. Safon 2.1	Bydd Rheolwr y Ward a'r Rheolwr Gwasanaeth yn cysylltu â'r adran Ystadau ynglŷn â gweithredu'r cynllun hwn ymhellach, sydd wedi'i lunio a'i brisio'n flaenorol.	Rheolwr y Ward/Rheolwr Gwasanaeth/Adran Ystadau	Ionawr 2017
Tudalen 20	Mae angen i'r fferylllydd sicrhau bod y stoc dros ben yn cael ei symud o'r ward mewn modd amserol. 2.1; 2.6	Bydd rheolwr y ward yn cysylltu â rheolwr y fferyllfa i sicrhau y gwneir hyn bob wythnos.	Rheolwr y ward/ Rheolwr y Fferyllfa	Rhagfyr 2016
Tudalen 21	Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod y troli cyffuriau yn cael ei osod yn ddiogel pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Safon 2.1; 2.6	Bydd rheolwr y ward yn cysylltu â'r Adran Ystadau ynglŷn â phrisio'r gwaith o osod y troli cyffuriau wrth y wal pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.	Rheolwr y ward/Adran Ystadau	Rhagfyr 2017
Tudalen 18	Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod y ward yn dychwelyd y cymorth mae'n ei gael gan wardiau eraill trwy roi cymorth gyda phroblemau iechyd meddwl ar wardiau cyffredinol.	Bydd rheolwr y ward neu brif nyrs y ward yn mynychu'r cyfarfod Nyrsys Proffesiynol yn Ysbyty Bronglais i gynnig cymorth i gydweithwyr ar agweddau llawfeddygol a meddygol Ysbyty Cyffredinol Bronglais. Mae staff wardiau cyffredinol yn cael cymorth gan nyrs gysylltu seiciatrig gymunedol ym maes iechyd meddwl, sy'n dod i'r ward i gynnig cymorth a chyngor.	Rheolwr y Ward/Prif Nyrs y ward	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Mae gwasanaeth Cyswllt Seiciatrig wrthi'n cael ei ddatblygu hefyd, a fydd yn cynorthwyo ymhellach.		
Tudalen 20	Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall staff gael mynediad at gofnodion cleifion mewn modd amserol.	Bydd mynediad at Dechnoleg Gwybodaeth yn cael ei asesu, a threfnir gyda'r Adran TG i ragor o gyfrifiaduron fod ar gael ar y ward.	Rheolwr y Ward/Rheolwr Gwasanaeth	Ionawr 2017
Tudalen 20	Mae angen diweddarau'r system ar gyfer cofnodi hyfforddiant staff i adlewyrchu'r hyfforddiant a gwblhawyd.	Mae Cofnod Staff Electronig ar waith, a Chofnodion Adolygu Arfarniadau Datblygiad Personol, a fydd yn cynnwys anghenion hyfforddiant nad ydynt wedi cael eu diwallu, yn ogystal ag e-fodiwlau hanfodol a gorfodol mae staff yn eu cwblhau. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n gyfnodol gan Reolwr y Ward mewn sesiynau goruchwylio. Mae'r gwasanaeth wedi penodi Rheolwr Busnes a fydd yn cynorthwyo yn y gwaith o adolygu cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn fwy systematig.	Rheolwr Busnes y Gwasanaeth	I'w adolygu mis Ionawr 2017
Tudalen 21	Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu ei ddogfennaeth i atal dyblygu, ac i sicrhau bod llwybrau gofal yn hawdd eu rheoli ac yn hawdd eu cyrraedd.	Bydd y Rheolwr Gwasanaeth yn cysylltu â'r Uwch-nyrs dros Sicrhau Ansawdd i sicrhau bod yr ansawdd yn cael ei wella ac yn bodloni safonau'r Colegau Meddygol Brenhinol.	Rheolwr Gwasanaeth/Uwch-nyrs dros Sicrhau Ansawdd	Ionawr 2017
Tudalen	Dylai rheolwr y ward sicrhau bod anghenion	Mae gwybodaeth am weinidogion ac offeiriaid	Technegydd	Rhagfyr 2016

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
21	ysbrydol cleifion yn cael eu diwallu.	plwyf lleol ar gael i berthnasau a chleifion ar y ward. Bydd y technegydd Therapi Galwedigaethol newydd yn mynd â chleifion i'r ystafell fyfrio yn Ysbyty Bronglais pan fydd cleifion yn gofyn.	Therapi Galwedigaethol/Rheolwr y Ward	
Tudalen 22	<i>Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod y weithdrefn gwyno ar gael ac yn hygyrch i gleifion a pherthnasau.</i>	Mae taflenni Gweithio i Wella yn y raciau taflenni wrth i bobl fynd i mewn ac allan o'r ward. Bydd rhagor o daflenni'n cael eu rhoi yn y rhan o'r ward ar gyfer perthnasau pan fyddant yn ymweld, ar ôl i'r raciau taflenni newydd gael eu gosod ar y wal yno.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd eisoes, mae'r raciau ar y ward ers tri mis.
Tudalen 22	Mae angen i'r ward sicrhau ei bod yn gwrando ar brofiad cleifion/perthnasau ac yn dysgu ganddynt.	Mae gan ward Enlli wobwr efydd am fuddsoddi mewn gofalywr. Mae adborth gan gleifion a pherthnasau'n cael ei gadw yn swyddfa rheolwr y ward ac yn cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaethau a ddarperir ar ward Enlli. Mae gwybodaeth a roddir gan berthnasau/cleifion hefyd yn cael ei defnyddio wrth oruchwylio staff, neu yn ystod cyfarfodydd adborth staff ar ward Enlli. Bydd ffurflenni adborth a blwch sylwadau'n cael eu creu a'u lleoli ar y wal ar ward Enlli ger y fynedfa.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd mis Medi 2016
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Dim angen gwneud unrhyw welliannau.			

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (llythrennau bras): Liz Carroll

Teitl: Pennaeth Nyrsio

Dyddiad: 27 Hydref 2016